Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod Hybrid 23 Gorffennaf 2024 am 7:00 yr hwyr.

| **ENW** | **PRESENNOL** | **YMDDIHEURO** |
|---|---|---|
| John Brinley Jones (Cadeirydd y tro hwn) | ✓ | |
| Alan Harper-Smith | ✓ | |
| Andrew Parry | | |
| Greta Hughes | ✓ | |
| Gwenllian Davenport Hughes | ✓ | |
| Hywel James Sinclair Evans | | ✓ |
| Ian Goronwy Williams | | ✓ |
| Keith Williams | ✓ | |
| Kevin Wheatley | ✓ | |
| Thomas Victor Jones | ✓ | |
| William Roger Jones | ✓ | |
| **HEFYD** | | |
| Caroline Jones (Clerc) | ✓ | |
| Ann Llwyd (Cyfieithydd) (Yn rhithiol) | ✓ | |

1. **Presennol ac ymddiheuriadau**
   Cadeiriodd John Brinley Jones y cyfarfod yn absenoldeb Andrew Parry.
   Rhestrwyd y rhai'n bresennol, yn ogystal â'r ymddiheuriadau, yn y tabl uchod.

2. **Datgan Buddiant Ariannol neu Bersonol**
   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant ariannol na phersonol.

3. **Cofnodion - er mwyn cywirdeb yn unig. Pwyllgor 24 Mehefin 2024**
   Derbyniwyd y cofnodion yn unfrydol fel rhai cywir.
   Cynigiwyd gan: Gwenllian Davenport Hughes.
   Eiliwyd gan: William Roger Jones

4. **Unrhyw Fater Brys**
   **4.1.** Cytundeb Cyfleusterau Cyhoeddus Lôn Nant Iago: Adroddodd y Clerc bod cytundeb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd i gynnal darpariaeth y cyfleusterau cyhoeddus ar Lôn Nant Iago. Cost i'w cynnal am y flwyddyn oedd £4,000. Roedd y cytundeb wedi ei rannu eisoes gyda'r Cadeirydd a Chyngh. Alan Harper Smith, a oedd wedi ceisio delio gyda'r mater yn y gorffennol. Cytunwyd i dderbyn y cytundeb a oedd yn cynnwys cadarnhau cyfraniad o £2,000 gan Gyngor Cymuned Llanbedrog am gynnal a chadw'r toiledau am flwyddyn, gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cyfrannu'r £2,000 yn weddill.
   Ar fater ychwanegol ar Lôn Nant Iago, derbyniwyd sylw bod y ffordd angen i ysgubo / clirio ers i niferoedd y ceir yn parcio yno leihau.

   **Gweithredu:**

   **4.1.1. Clerc i drefnu bod y cytundeb cyfleusterau cyhoeddus Lôn Nant Iago yn cael ei arwyddo a dychwelyd i Gyngor Gwynedd.**

**4.1.2. Y Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd i lanhau'r ffordd yn Lôn Nant Iago.**

**4.2. Cynllun Datblygu Gwynedd** – gwahoddiad i gyflwyno safleoedd posib:
Gofynnwyd i'r cynghorwyr anfon unrhyw sylwadau i'r Clerc.
Tynnodd John Brinley Jones sylw at leoliad yn Tyn Pwll a oedd i fod yn llecyn mwyniant, ond nid oedd wedi cael ei gynnwys yn y ddogfen.
**Gweithredu: Clerc i gynnwys y llecyn yn Nhyn Pwll yn sylwadau'r Cyngor Cymuned i Gynllun Datblygu Gwynedd. Cynigiodd John Brinley Jones gymorth i'r Clerc ar y mater.**

**4.3. Cyflymdra 20/30mya y pentref**: Cytunwyd disgwyl nes clywir mwy gan Lywodraeth Cymru ar y mater.

**4.4. Carafanau statig wedi eu lleoli yn y pentref**: Cafwyd trafodaeth ar y carafanau wedi eu lleoli yn y Ship a Chraig y Glyn, yn ogystal â'r datblygiad diweddar i'r tir yng Nghraig y Glyn.

**Gweithredu: Y Clerc i ysgrifennu at adran cynllunio Cyngor Gwynedd, gyda chopi i'r Cynghorydd Angela Russell, yn cyfleu pryder y Cyngor Cymuned ar y datblygiadau hyn ac i wirio a oedd caniatâd cynllunio ei angen ar eu cyfer. Dangoswyd pryder hefyd am y dŵr gwastraff o garafán y Ship, gan nad oedd yn glir i le oedd y gwastraff yn rhedeg, ac ofnwyd bod hyn o bosib yn creu llygredd.**

5. **Llwybrau**
Adroddwyd bod Rhys Jones wedi clirio o flaen yr Eglwys ac wedi ei gyfarwyddo i dwtio'r llecyn mwyniant, y chwyn a drain ar yr ochrau.
Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda'r swyddog llwybrau yng Nghyngor Gwynedd fel gofynnwyd yn y cyfarfod diwethaf. Cytunwyd: i gymryd barn y swyddog ar welliannau i lwybr Trwy'r Nant.
**Gweithredu: Clerc i sicrhau bod llecyn mwyniant yn daclus erbyn 17 Awst.**

6. **Y Fynwent, y Fynwent Newydd:** Adroddodd John Brinley Jones bod niferoedd gwningod wedi lleihau erbyn hyn oherwydd clefyd. Nodwyd bod gwaith ar wal yng nghefn y fynwent dal heb ei orffen.
**Gweithredu: Y Clerc i gysylltu gyda Dilwyn Williams i ofyn iddo gael ei orffen neu i gynnig eglurhad ar pam nad oedd symudiad ar y gwaith.**

   Rhoddodd y Clerc ddiweddariad ar drefniant biniau'r fynwent, a byddai'r mater cael sylw brys.

7. **Cae Chwarae**: Ni dderbyniwyd diweddariad yr Is-bwyllgor gan nad oedd cynrychiolwr o'r pwyllgor yn bresennol.

Cofnodion Cyfarfod Hybrid 23 Gorffennaf 2024 am 7:00 yr hwyr.

8. **Neuadd y Pentref**: Adroddodd Keith Williams ar ran y pwyllgor. Roedd y dawnsio nos Lun wedi dod i ben. Roedd trefniadau ar y gweill i wagio o dan y llwyfan.

9. **Taliadau**
   Cytunwyd y taliadau isod:

   Ann Llwyd, cyfieithydd: £70

   Cyflog y Clerc: £443.87

   PAYE a YG: £110.80

   PPM am gostau paent contractwr: £33.55

   Emyr Mortimer am gostau proffesiynol cyflogres: £31.20

   Datganiadau banc: Rhannwyd y datganiadau gyda'r papurau o flaen llaw a rhannodd y Cadeirydd balasau'r diwrnod hwnnw sef:

   - Cyfrif Busnes Natwest: £39,982.49
   - Cyfrif *Liquidity Manager* Natwest: £70,008.00. Symudwyd £70,000 i'r cyfrif yma ar Fehefin 27 o'r cyfrif *Business Reserve* Natwest
   - Cyfrif *Business Reserve* Natwest: £1,192.32

10. **Ceisiadau Cynllunio:**

    **10.1.** C24/0497/38/DT Môr a Mynydd, Ffordd y Traeth (sylwadau cyn 29.7.24): Dim gwrthwynebiad.

    **10.2.** C24/0470/38/DT Glasfryn Bungalow, Ffordd Pedrog (sylwadau cyn 29.7.24): Dim gwrthwynebiad.

    **10.3.** C24/0551/38/LL Bulders Yard, Lôn Abersoch (sylwadau cyn 2.8.24): Trafodwyd bioamrywiaeth y safle. Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais pe byddai'r datblygiad yn cydymffurfio â gofynion statudol amgylcheddol a gofynion yr AHNE.

    **10.4.** **Cytunwyd:** i'r Clerc fynychu cwrs ar sut i ymateb i geisiadau cynllunio am gost £40.

11. **Pwynt Ychwanegol: Coed ar y ffordd A499 ger Penrhos**: Derbyniwyd sylw bod nifer o goed wedi eu torri yn ôl o'r ffordd yn ddiweddar ac nid oedd yn glir os mai gwaith Cyngor Gwynedd oedd hyn yntau perchennog y tir. Y farn oedd bod y gwaith hwn wedi gwella'r ffordd yn sylweddol.

**Gweithredu: Y Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd i ofyn pe byddai posib torri'r coed ymhellach tuag at Lanbedrog, hynny yw hyd at Bont Rhyd John ar y gongl ger troad i mewn i Ben y Berth.**

Diolchwyd i John Brinley Jones am ei waith fel Cadeirydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.25. Cyfarfod nesaf dydd Llun, Medi 30 2024.

| | | |
|---|---|---|
| **COFNODION DRAFFT WEDI EU CADARNHAU GAN Y CADEIRYDD**<br><br>**ARWYDDWYD** **John B Jones** | | **DYDDIAD: 07/08/2024** |
| **COFNODION WEDI EU CADARNHAU**<br><br>**ARWYDDWYD** | | **DYDDIAD:** |